

Panel Recriwtio Cyfarwyddwr

27 Gorffennaf 2022

Yn Bresennol (Yn bersonol)

Cynghorydd M James (Cadeirydd)

Cynghorydd Mrs D Clements, Mr GA Jones a'r Cynghorydd PJ Morgan.

Yn Bresennol (O Bell)

Dr M Havard, Dr R Heath-Davies a Mrs J James.

(Swyddfa APCAP, Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell: 12.30p.m. – 1.05p.m.)

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. **Datgan Buddiannau**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorwyr D Clements ac M James a gan Mrs J James gan eu bod yn gyfarwydd ag ambell un o'r ymgeiswyr o safbwynt swyddogaeth broffesiynol.

[Ymddiheurodd Dr R Heath-Davies a gadawodd y cyfarfod cyn diwedd y drafodaeth ar yr eitem isod, ond ar ôl y bleidlais ar yr ymgeiswyr oedd i'w cyfweld.]

3. **Penodi Cyfarwyddwr**

Dywedwyd wrth y Panel, yn dilyn hysbysebu swydd y Cyfarwyddwr Cynllunio, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol ar 18 Mai 2022, bod chwe chais wedi dod i law. Roedd y rhain wedi'u hasesu gan Gatenby Sanderson, yr ymgynghorwyr recriwtio a gyflogwyd, ac roeddent wedi argymhell bod 3 ymgeisydd yn cael eu cyfweld. Fodd bynnag, wrth ystyried y ceisiadau, cynigiwyd ac eiliwyd bod pedwar ymgeisydd yn cael eu cyfweld. Disgwylir y gellir cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, fodd bynnag gellid cynnal cyfweliad rhithiol gydag ymgeiswyr penodol yn unol â'u cais, ac os nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn bersonol.

Yna cafwyd trafodaeth ar y camau nesaf yn y broses, a chytunwyd y byddai cwestiynau drafft yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor am sylwadau, ynghyd ag amserlen ar gyfer y diwrnod.

Penderfynwyd gwahodd pedwar ymgeisydd am gyfweliad ar yr 8fed o Awst 2022.

